# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Jim Evans, John Griffith, R. Meirion Jones, R. Llewelyn Jones, Richard Owain Jones, Alun Mummery, Peter Rogers, Dafydd Rhys Thomas.<br><br>Aelodau Lleyg: Mr Richard Barker, Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW:** | Darpar Brif Weithredwr<br>Pennaeth Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro<br>Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad.

**2 CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd R. Llewelyn Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

**3 IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd John Griffith yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Bu i Mr Richard Barker a Mrs Sharon Warnes (Aelodau Lleyg) ymatal rhag pleidleisio ar y ddau fater uchod gan ddweud eu bod yn teimlo eu bod o dan anfantais am na ofynnwyd eu barn yn eu cylch ac am na fuont yn rhan o'r broses.

**Cynghorydd Jim Evans**
**(fel Cadeirydd y Cyngor Sir)**